**Status:** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

*Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cywiro gwallau yn O.S. 2022/564 (Cy. 130) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 993 (Cy. 210)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Medi 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *28 Medi 2022* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3)* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), a pharagraffau 2, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Wrth wneud y Rheoliadau hyn mae Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r materion yn adran 1A(**3**) o'r Ddeddf honno a chyn gwneud y Rheoliadau hyn gwnaethant ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**4**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y dyddiadau a ganlyn—

(a) daw'r rheoliad hwn a rheoliad 3 i rym ar 22 Tachwedd 2022; a

(b) daw rheoliadau 2 a 4 i rym ar 29 Mawrth 2023.

(**1**) 1984 p. 55; diwygiwyd adran 1(1) gan adran 1(1) a (2) o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"). Mewnosodwyd adran (1A) gan adran 1(3) o Ddeddf 2004. Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 ac adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); a diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 ac adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**2**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984, a pharagraffau 2, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019) ("Gorchymyn 2009") ac adran 54 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**3**) Mewnosodwyd adran 1A gan adran 2 o Ddeddf 2004.

(**4**) Mewnosodwyd adran 14(7) gan erthygl 8 o Orchymyn 2009.

**Diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu 2010(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (gofynion), yn Rhan L (arbed tanwydd a phŵer), yn ail golofn cofnod L2 (cynhyrchu trydan ar y safle) hepgorer "Requirement L2 applies only to dwellings."

**Diwygio Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 21(1) (darpariaeth drosiannol)—

(a) ar ôl "Rheoliadau hyn" yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos mewnosoder "(heblaw am reoliadau 14 a 17)";

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl "adeilad unigol" mewnosoder "cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym";

(c) ar ôl is-baragraff (b), mewnosoder—

", neu

(c) pan gydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol cyn 31 Gorffennaf 2014 a bod y gwaith adeiladu wedi cychwyn cyn 31 Gorffennaf 2015 yn unol â'r ddarpariaeth hysbysu berthnasol."

**Darpariaeth Drosiannol**

**4.**—(1) Nid yw'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 yn gymwys—

(a) pan fo'r gwaith adeiladu ar adeilad penodol wedi cychwyn cyn 29 Mawrth 2023 yn unol ag unrhyw ddarpariaeth hysbysu berthnasol,

(b) pan gydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig ar adeilad unigol cyn 29 Mawrth 2023 a bod y gwaith adeiladu wedi cychwyn o fewn 12 mis gan ddechrau â 29 Mawrth 2023, neu

(c) pan gydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol cyn 31 Gorffennaf 2014 a bod y gwaith adeiladu wedi cychwyn cyn 31 Gorffennaf 2015 yn unol â'r ddarpariaeth hysbysu berthnasol.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "darpariaeth hysbysu berthnasol" yw rheoliad 12(2) o Reoliadau Adeiladu 2010 ac adrannau 47(1), 50, 51A(2) a 54 o Ddeddf Adeiladu 1984.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

26 Medi 2022

(**5**) O.S. 2010/2214, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/747 (Cy. 89) a 2022/564 (Cy. 130); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**6**) O.S. 2022/564 (Cy. 130).

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") fel y maent yn gymwys o ran Cymru a Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau Diwygio 2022").

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol wrth gyflawni gwaith adeiladu. Mae rheoliad 2 yn estyn paragraff L2 o Atodlen 1 (cynhyrchu trydan ar y safle) i adeiladau annomestig.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiadau i'r darpariaethau trosiannol yn rheoliad 21 o Reoliadau Diwygio 2022. Mae'r diwygiadau yn rheoliad 3 yn cywiro mân wallau ac yn eithrio Rhannau 2 a 3 o Reoliadau Diwygio 2022 rhag bod yn gymwys i safleoedd sy'n dod o dan ddarpariaethau trosiannol blaenorol. Gwna hyn drwy bennu'r dyddiadau perthnasol erbyn pryd y dylid bod wedi cydymffurfio â darpariaeth hysbysu (31 Gorffennaf 2014) ac erbyn pryd y dylai'r gwaith adeiladu fod wedi cychwyn (31 Gorffennaf 2015).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaethau trosiannol fel nad yw'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 yn gymwys pan fo gwaith adeiladu ar adeilad unigol wedi cychwyn yn unol â darpariaeth hysbysu berthnasol, ar yr amod bod y gwaith adeiladu ar yr adeilad hwnnw eisoes wedi cychwyn neu y cydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol eisoes ac y cychwynnir y gwaith adeiladu ar yr adeilad hwnnw o fewn 12 mis i'r adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Mae rheoliad 4 hefyd yn eithrio'r diwygiad i Ran L (rheoliad 2) rhag bod yn gymwys i safleoedd fel y'u nodir yn rheoliad 3.

Mae Deddf Adeiladu 1984 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo a chyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys canllawiau ymarferol yn ymwneud â'r gofynion a geir yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r pŵer hwnnw yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae Dogfen Gymeradwy L Cyfrol 2, rhifyn 2022, yn cynnwys canllawiau ymarferol ar fodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu sydd wedi cael eu diwygio gan yr offeryn hwn. Mae'r Dogfennau Cymeradwy wedi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a gellir cael gafael arnynt ar www.llyw.cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.